Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Waunfawr**
**Y Ganolfan**
**Waunfawr**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL55 4YY**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**


**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**


**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/04/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Waunfawr, sydd wedi ei leoli yn ‘Y Ganolfan’, ym mhentref Waunfawr, ger Caernarfon, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae’r lleoliad ar agor am bum bore’r wythnos ac mae’n cynnal clwb cinio. Mae gan y lleoliad dau aelod o staff llawn amser. Mae’n rhannu’r ystafell gyda’r gymuned leol a’r clwb ar ôl ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 18 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant o ddwy flwydd i bedair oed. Ar adeg yr arolygiad, mynychodd 13 plentyn. Mae’r awdurdod lleol yn ariannu pedwar ohonynt.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae bron pob un plentyn yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd dros dro ei swydd ym mis Ionawr 2016. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Mehefin 2014. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae newidiadau diweddar wedi bod yn y staffio ac mae'r arweinydd mewn swydd dros dro. Mae'r mwyafrif o'r staff a'r pwyllgor rheoli yn newydd i'w rolau. Mae perfformiad presennol y lleoliad yn ddigonol.

Mae'r cryfderau'n cynnwys:

- darpariaeth briodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd y plant
- perthynas gadarnhaol rhwng oedolion a phlant
- gofal diwyd a ddarperir gan staff
- modelu da iawn gan staff o'r iaith Gymraeg
- partneriaethau gwerth chweil gydag asiantaethau allanol, sy'n cefnogi gwaith y lleoliad

Mae'r meysydd i wella'n cynnwys:

- datblygu cynllunio effeithiol i wella medrau'r plant
- defnyddio ymwelwyr i'r lleoliad er mwyn helpu plant i ddeall yr hyn y mae pobl yn gwneud yn eu cymuned eu hunain
- gwella'r addysgu i herio plant yn unol â'u galluoedd
- cofnodi asesiadau'n gyson i symud plant ymlaen at y camau nesaf yn eu dysgu
- gwella'r defnydd o'r awyr agored

### Rhagolygon gwella

Mae'r pwyllgor rheoli'n newydd iawn i'w rolau ac nid oes llawer o'i arferion newydd wedi cael eu sefydlu. Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- swydd yr arweinydd yn un dros dro ac mae penodiad newydd ar fin digwydd
- y pwyllgor rheoli'n dechrau darparu cyfeiriad strategol clir i waith y lleoliad
- y pwyllgor rheoli a'r arweinydd dros dro yn hunanwerthuso'n briodol erbyn nawr ac yn targedu anghenion cyfredol y lleoliad yn fwy effeithiol
- datblygiadau diweddar yn dechrau dangos gwelliannau mewn darpariaeth ac mewn deilliannau'r plant
- yr holl staff yn frwdfrydig ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol ac ymarferol i ddatblygu eu sgiliau a'u rolau yn y lleoliad
- cefnogaeth effeithiol gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn targedu'n gyson agweddau penodol sydd angen gwella
- y lleoliad yn mynd i'r afael erbyn nawr â'r argymhellion o'r arolwg blaenorol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y cynllunio o'r themâu yn darparu parhad, dilyniant a her gyson ar gyfer pob plentyn ynglŷn â datblygu eu medrau, yn enwedig eu medrau rhifedd

A2 Gwella ansawdd yr addysgu i herio plant yn unol â'u galluoedd

A3 Sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau asesiadau rheolaidd er mwyn iddynt arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn dysgu'r plant

A4 Datblygu a chyfoethogi'r adnoddau a'r profiadau yn yr ardal allanol

A5 Sefydlu systemau newydd y pwyllgor rheoli i sicrhau bod y cynllunio strategol a'r hunanarfarnu yn effeithio'n llwyddiannus ar ddarpariaeth a deilliannau'r plant

A6 Sicrhau bod arweinyddiaeth dyddiol y lleoliad yn weithredol ac effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod o weithgareddau priodol ar gyfer plant ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Mae'r cynllunio addas yn bodloni athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Mae'r arweinydd dros dro wedi parhau â'r cynllunio blaenorol ac mae hi'n trafod a pharatoi gweithgareddau'n ddyddiol gyda gweddill y staff. Fodd bynnag, nid yw'r cwricwlwm yn adeiladu'n bwrpasol ar wybodaeth a phrofiadau'r holl blant. Nid yw'r cynllunio'n targedu anghenion y plant hŷn yn gyson ac nid yw'r staff yn herio'r plant yma'n effeithiol i berfformio ar eu gorau. Felly, nid yw'r cynllunio o dasgau ffocws yn darparu parhad, dilyniant a her gyson ar gyfer pob un plentyn.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd a chyfathrebu'r plant yn briodol. Mae'n ategu at brofiadau dysgu'r plant yn foddhaol. Mae tasgau ysgrifennu cynnar yn y siop deganau yn ymrwymo'r plant yn synhwyrol, wrth iddynt nodi archebion dros y ffôn ar bapur. Maent yn effeithio safonau llythrennedd yn addas ar draws y meysydd dysgu. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd yn effeithiol. Nid yw'r gweithgareddau a gynlluniwyd i wella safonau rhifedd y plant yn heriol ac ysgogol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ac mae'r cyfleoedd i ddefnyddio til, ffôn, llechen a theganau electronig yn bwrpasol.

Mae'r staff yn gwneud y defnydd gorau o'r amgylchedd dan do i annog y plant i arbrofi â phrofiadau newydd, fel rolio toes, peintio eu hoff deganau a chwarae'n frochus ar feiciau yn neuadd y ganolfan. Mae hyn yn dechrau datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol.

Nid yw'r defnydd o'r ardal allanol yn ysgogol. Nid oes her i blant tu allan am fod diffyg cyfleusterau ac adnoddau yn perthyn i'r ganolfan. Fodd bynnag, mae'r plant yn cael cyfleoedd da i redeg o gwmpas a defnyddio cyfarpar tu mewn yr adeilad. Maent hefyd yn defnyddio'r parc lleol yn achlysurol i gwblhau gweithgareddau corfforol.

Mae plant yn ymweld â lleoedd y tu allan i'r lleoliad fel yr ysgol leol, parc antur a'r pentref er mwyn casglu dail. Mae'r cynllunio o'r gweithgareddau yma'n dda er mwyn i'r plant ddysgu am eu cymuned. Er hynny, nid yw'r plant yn dysgu'n bwrpasol oddi wrth bobl sy'n ymweld â'r lleoliad am fod neb yn ymweld ar hyn o bryd.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarn i blant i ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Maent yn dathlu ac yn dysgu'n llwyddiannus am wyliau Cymru fel Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Hefyd, maent yn ymchwilio a thrafod yn ystyrlon am ddiwylliannau eraill, fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n effeithiol iawn gyda'r plant yn y Gymraeg.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth addas o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas gadarnhaol rhwng yr holl staff a'r plant. Mae'r staff yn dechrau datblygu rôl weithredol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'u harbenigedd. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn ysgogi plant yn llwyddiannus yn ystod gweithgareddau ffocws i sicrhau bod plant unigol yn cael eu herio'n briodol yn unol â'u galluoedd.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol. Maent yn bositif iawn wrth i blant gyrraedd ac maent yn parhau gyda'r brwdfrydedd hwn drwy gydol y sesiwn. Mae pob plentyn yn dewis yn synhwyrol rhwng gweithgareddau a arweinir gan oedolion a gweithgareddau a arweinir gan blant. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r staff yn ymyrryd gormod ac nid ydynt yn caniatáu i blant ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol, yn ddiogel ac yn effeithlon. Mae'r staff yn modelu'r Gymraeg yn dda iawn er mwyn datblygu medrau cyfathrebu'r plant. Mae'r staff yn annog y plant i werthuso'n synhwyrol wrth iddynt drafod y tywydd a dwyn i gôf dyddiau'r wythnos. Yn yr adeilad, mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol ar y cyfan, sy'n sicrhau'n effeithiol bod yr holl blant yn cymryd rhan a mwynhau. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu'n yr awyr agored yn ysgogol.

Mae gweithdrefnau asesu priodol yn bodoli. Mae'r staff yn cwblhau cofnodion ar gyflawniadau'r plant yn addas. Fodd bynnag, mae'r system o asesu'n newydd i'r staff cyfredol a'r arweinydd dros dro. Felly, nid yw'r asesiadau'n arwain ar hyn o bryd, gyda digon o fanylder, i dargedau plant unigol a'r camau nesaf yn eu haddysg. Mae'r lleoliad yn hysbysu'r rhieni a'r gofalwyr yn dda am gyflawniadau eu plant. Mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er enghraifft, mae'r staff yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn synhwyrol, drwy gyfleoedd cyson i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo ar ddiwedd y sesiwn.

Nid yw'r staff yn caniatáu i blant i weini diodydd i eraill a dosbarthu ffrwythau wrth y byrddau bwyta ar hyn o bryd, fodd bynnag mae system 'helpwr y dydd' ar fin ddechrau dan ofal yr arweinydd dros dro. Er hynny, mae'r staff yn annog y plant yn

effeithiol i gymryd eu tro’n gwrtais yn ystod amser byrbryd. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae trefniadau addas yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant, sy'n dylanwadu ar ddysgu plant yn bwrpasol. Mae'r rhain yn cynnwys y defnydd o neuadd y ganolfan ar gyfer gweithgareddau corfforol a chyfleoedd achlysurol i blannu llysiau mewn bagiau compost. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i'r plant i ailgylchu bwyd, papur, cardbord a photeli plastig. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw fath o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Er bod llawer o staff yn newydd i’w swyddi, mae ganddynt gymwysterau addas a phrofiad helaeth o weithio â phlant ifanc. Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Mae'r lleoliad yn defnyddio arbenigedd staff yn effeithiol wrth oruchwylio gweithgareddau. Mae’r plant yn hapus a’n ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac mae pob plentyn yn gofyn am help a chefnogaeth pan fo'i angen.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel, mae'r drws allanol wedi ei folltio a dim ond aelod o staff sy’n ei agor. Ni all unrhyw un ddod mewn a ni all unrhyw blentyn adael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i blant cael eu casglu o’r cyntedd. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu’r plant yn briodol yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant yn dda gyda chefnogaeth ychwanegol pan fo angen. Mae'r staff yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol. Yr arweinydd dros dro yw’r cydlynydd dysgu ychwanegol ac mae hi'n gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i’r meysydd dysgu a’r cyfarpar. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm addas tu mewn i’r adeilad. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos positif trwy’r gweithgareddau dyddiol a’r agwedd sy'n cael ei fabwysiadu gan y staff. Mae pwyslais clir gan bawb ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth trwy ddefnyddio doliau o wahanol ddiwylliannau.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau’n briodol tu mewn i’r adeilad i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Anogir y plant yn gyson i symud yn rhydd o gwmpas yr ardaloedd dysgu a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth o adnoddau a phrofiadau yn y meysydd dysgu yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau'r ystafell a'r angen i sefydlu a chlirio offer yn ddyddiol. Er hynny, mae'r adnoddau a gynigir yn hygyrch i blant, sy'n hyrwyddo'n llwyddiannus synnwyr y plant o gyfrifoldeb wrth ofalu am offer. Mae'r gweithgareddau parhaus, y tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu'n rhannu adnoddau'n ddigonol.

Mae'r adeilad o ansawdd addas, yn ddiogel ac mewn cyflwr da.  Fodd bynnag, nid oes gan y lleoliad ardal allanol effeithiol oherwydd y diffyg cyfleusterau yn y ganolfan. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r neuadd fawr yn addas ar gyfer gweithgareddau corfforol. Mae'r staff yn defnyddio'r parc cyfagos yn achlysurol i hyrwyddo'n foddhaol datblygiad corfforol y plant yn yr awyr agored.

Mae cyfleoedd priodol i blant i ddefnyddio bagiau compost i dyfu planhigion yn achlysurol, fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon yn nodwedd reolaidd o ddarpariaeth y lleoliad.  Nid yw'r cyfleoedd i blant ddysgu sut mae planhigion yn tyfu a sut i ofalu amdanynt wedi'u sefydlu'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Digonol**

Yn ddiweddar, mae'r arweinydd dros dro a'r pwyllgor rheoli wedi dechrau defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad yn effeithlon, sy'n dechrau gychwyn ar welliannau yn ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau'r plant.  Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd presennol ynglŷn ag arweinyddiaeth hir dymor y lleoliad, mae cyfeiriad strategol y lleoliad yn foddhaol.  Nid yw'r newidiadau wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar godi ansawdd y ddarpariaeth ac i dargedu gwella deilliannau plant yn effeithiol.

Mae'r arweinydd dros dro wedi dechrau hyrwyddo a chynnal gwelliannau.  Ar hyn o bryd, mae'n rheoli addysgu a dysgu'n briodol.  Mae newidiadau diweddar a sylweddol yn y strwythur arweinyddiaeth a'r pwyllgor rheoli, o ganlyniad mae'r deilliannau ar gyfer plant yn foddhaol ar hyn o bryd.

Mae'r arweinydd dros dro a'r pwyllgor rheoli'n sicrhau bod staff yn deall eu rolau'n llawn ac maent yn cydweithio'n ddiwyd fel tîm.  Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn effeithiol.  Mae'r arweinyddiaeth ofalgar yn cymell staff tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol.  Mae'r arweinydd dros dro, y staff a'r pwyllgor rheoli'n dechrau cynllunio'n bwrpasol er mwyn darparu profiadau priodol i blant y tu mewn i'r adeilad.

Mae gan y pwyllgor rheoli gwell ffocws erbyn hyn ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r lleoliad.  Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen weithredol, sy'n targedu rôl y pwyllgor rheoli fel blaenoriaeth allweddol.  Erbyn hyn mae blaenoriaethau clir ar gyfer gwella, wedi eu nodi trwy weithdrefnau hunanarfarnu realistig.  Mae'r prosesau datblygiadol hyn yn dechrau sicrhau bod adnoddau ar gael i gwrdd â'r amcanion gwella.  Mae hyn yn cynnwys rheolaeth ariannol effeithiol a gwella'r ddarpariaeth TGCh a rhifedd.

Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth.  Mae eu cefnogaeth wedi tywys yr arweinydd dros dro a'r pwyllgor rheoli'n synhwyrol drwy gydol cyfnod o newidiadau sylweddol yn y lleoliad.  Mae'r polisïau yn weithredol

erbyn hyn ac mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn addas, fel gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunanarfarnu'n newydd i'r arweinydd dros dro a'r pwyllgor rheoli. Hyd yn hyn, nid yw'r lleoliad yn cymryd i ystyriaeth safbwyntiau plant a'u rhieni a'u gofalwyr. Mae cefnogaeth yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn dechrau effeithio ar y broses yn fuddiol. Mae hyn yn gefnogol i ddatblygiad y lleoliad. Hyd yn hyn, nid yw'r pwyllgor rheoli a'r arweinydd dros dro wedi cael digon o amser i ddangos effaith eu gwaith ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau plant trwy fabwysiadu strategaethau gwahanol a chyngor gwerthfawr gan eraill. Felly, mae'r broses o wella ansawdd yn foddhaol.

Mae bron pob un o'r staff yn wybodus am waith cyfredol y lleoliad. Mae'r arweinydd dros dro a'r pwyllgor rheoli wedi sefydlu gweithdrefnau mwy cyson erbyn nawr i fonitro safonau plant a'r ddarpariaeth. Mae gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol o ddydd i ddydd yn cyflawni hyn. Mae'r arweinydd dros dro a'r staff yn rhannu syniadau'n synhwyrol. Mae'r pwyllgor rheoli'n defnyddio cyllid yn effeithiol ar gyfer adnoddau a staffio effeithlon. Fodd bynnag, mae llawer o'r staff yn newydd i'w rolau ac mae rôl yr arweinydd parhaol yn parhau'n wag.

Mae'r meysydd ar gyfer datblygu yn cael eu cydnabod yn gyson dda erbyn hyn fel gwella'r ddarpariaeth barhaus. Mae'r pwyllgor rheoli bellach wedi cymryd y camau angenrheidiol i weithredu newid yn briodol. Mae cysylltiadau clir rhwng yr hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu, sy'n canolbwyntio ar welliannau yn y lleoliad. Felly, mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu'n dechrau dylanwadu ar waith y lleoliad. Fodd bynnag, mae ychydig o argymhellion o'r arolygiad blaenorol yn parhau fel meysydd i'w datblygu.

Mae'r staff yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Er enghraifft, maent ar fin defnyddio system asesu newydd yr awdurdod lleol ac maent newydd dderbyn hyfforddiant ynglŷn â'i weithrediad. Mae'r staff yn barod i dderbyn syniadau newydd, a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Er enghraifft, mae argymhellion yr awdurdod lleol ar sut i wella'r hunanarfarnu, drwy raddio gwaith y lleoliad yn erbyn meini prawf penodol, yn dechrau effeithio ar ansawdd y profiadau dysgu a'r addysgu. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles y plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau sefydlog yn cyfrannu'n effeithiol at les plant yn y lleoliad. Mae'r staff yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn gwahodd rhieni a'r gymuned leol i ddigwyddiadau codi arian. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am themâu a gweithgareddau'r lleoliad.

Mae rhieni a gofalwyr, yn yr atebion i'r holiaduron ac mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad gyda'r lleoliad. Maent yn gwerthfawrogi safonau'r gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn ymhyfrydu yn y polisi drws agored a'r cyfleoedd i gyfarfod â staff yn ddyddiol. Felly, mae'r berthynas rhwng plant, rhieni a gofalwyr a'r

staff yn gadarnhaol iawn. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ymdeimlad positif o gymuned sy'n perthyn i'r lleoliad.

Mae cysylltiadau gyda'r ysgol leol wedi'u sefydlu'n dda. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth asesu ac mae'r lleoliad yn ymweld â'r ysgol i rannu mewn cyngherddau a gweithgareddau chwaraeon. Mae cytundeb positif yn bodoli hefyd gyda'r ysgol ar ddefnydd o neuadd y ganolfan.

Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan y Mudiad Meithrin o fudd i'r lleoliad, trwy weithredu'r polisïau a'r cyngor i'r pwyllgor rheoli. Mae'r cydweithrediad cryf rhwng yr awdurdod lleol a'r lleoliad yn fuddiol iawn i ddatblygiad y lleoliad. Mae perthynas gadarnhaol yn bodoli gyda'r ddwy asiantaeth. Erbyn hyn, mae eu cyngor ac awgrymiadau yn helpu i symud y lleoliad ymlaen ac yn cyfrannu'n dda at y ddarpariaeth ddatblygiadol.

Mae'r staff yn gweithio'n effeithlon gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd am blant ar lafar. Maent yn gwybod gyda phwy i gysylltu os oes angen cymorth ychwanegol ar gyfer plant. Maent yn defnyddio'r cysylltiadau hyn i gefnogi dysgu plant pan fo angen ac ar ôl trafodaethau gyda rhieni a gofalwyr.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Nid yw'r pwyllgor rheoli wedi sefydlu arweinydd parhaol eto ar gyfer y lleoliad. Mae'r penodiad ar fin digwydd. Erbyn hyn, mae'r pwyllgor rheoli'n anelu'n briodol i wella pob agwedd o waith y lleoliad. Fodd bynnag, mae hyn yn ei gamau cynnar o ddatblygiad. Mae cymuned ddysgu broffesiynol yn datblygu o fewn y lleoliad. Mae hyn bellach yn galluogi staff i ddechrau datblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn fwy effeithiol.

Mae'r cynllunio strategol bellach yn dechrau targedu anghenion y lleoliad yn fwy effeithiol. Er bod llawer o gymhlethdodau yn ystod y cyfnod diweddar wedi effeithio ar staffio, mae'r arweinydd dros dro a'r pwyllgor rheoli wedi llwyddo i sicrhau bod digon o staff cymwys â hyfforddiant priodol yn y lleoliad i gynnal y ddarpariaeth gymunedol.

Mae'r lleoliad yn rheoli ei hadnoddau'n foddhaol i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau yn y lleoliad. Mae gan y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o'i gyllideb erbyn hyn. Mae'r pwyllgor yn rheoli'r lleoliad yn dda erbyn hyn. Mae bellach yn blaenoriaethu'r gwariant yn unol â'r targedau ar gyfer gwella'n bwrpasol. Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd o arian yn dechrau cael effaith uniongyrchol ar gyflawniadau a lles y plant.

Mae'r lleoliad yn darparu gwerth digonol am arian oherwydd y meysydd pwysig sydd angen eu datblygu yn yr arweinyddiaeth a'r ddarpariaeth.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 9 | 8 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 9 | 7 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 9 | 7 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 9 | 9 | 0 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 9 | 6 | 3 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 9 | 6 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed | 10 | 4 | 5 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| about my child's progress. | | 40% | 50% | 0% | 10% | | gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 9 | 8<br>89% | 1<br>11% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 10 | 5<br>50% | 3<br>30% | 0<br>0% | 2<br>20% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 9 | 6<br>67% | 3<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 5<br>50% | 3<br>30% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 10 | 7<br>70% | 2<br>20% | 1<br>10% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |